This document is also available in English

CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
COUNTY BOROUGH COUNCIL

**CYNNWYS**

**ADRAN 25**

**25. Disgrifiadau Rôl a Manylion am yr Unigolyn ar gyfer Aelodau**


25.1 Disgrifiad o Swyddogaeth Aelod Etholedig
25.2 Manylion am yr Unigolyn Aelod Etholedig
25.3 Disgrifiad o Swyddogaeth Arweinydd (a Dirprwy)
25.4 Manylion am yr Unigolyn, Arweinydd
25.5 Disgrifiad o Swyddogaeth Aelod o'r Cabinet
25.6 Manylion am yr Unigolyn, Aelod Cabinet
25.7 Disgrifiad o Swyddogaeth Cadeirydd y Cyngor
25.8 Manylion am yr Unigolyn Cadeirydd y Cyngor
25.9 Protocol - Swyddogaeth y Cadeirydd
25.10 Disgrifiad o Rôl Cadeirydd Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd
25.11 Disgrifiad o Rôl Aelod o Bwyllgor Gwasanaethau Democrataidd
25.12 Disgrifiad o Swyddogaeth Cadeirydd Pwyllgor Rheoleiddio
25.13 Manylion am yr Unigolyn, Cadeirydd Pwyllgor Rheoleiddio
25.14 Disgrifiad o Swyddogaeth Aelod o Bwyllgor Rheoleiddio
25.15 Manylion am yr Unigolyn, Aelod Pwyllgor Rheoleiddio
25.16 Disgrifiad o Rôl Cadeirydd y Pwyllgor Safonau
25.17 Disgrifiad Swyddogaeth Aelod o'r Pwyllgor Safonau
25.18 Disgrifiad o Rôl Cadeirydd Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio
25.19 Disgrifiad o Rôl Aelod o Bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio
25.20 Disgrifiad o Swyddogaeth Cadeirydd Pwyllgor Craffu ac Arolygu
25.21 Manylion am yr Unigolyn, Cadeirydd Pwyllgor Trosolwg a Chraffu
25.22 Disgrifiad o Swyddogaeth Aelod Craffu ac Arolygu
25.23 Manylion am yr Unigolyn, Aelod Pwyllgor Trosolwg a Chraffu
25.24 Manylion am yr Unigolyn, Arweinydd yr Wrthblaid
25.25 Disgrifiad o Rôl Aelodau sy'n Gefnogwyr
25.26 Manylion am yr Unigolyn, Aelod Eiriolwr
25.27 Protocol ar gyfer yr Aelodau sy'n Gefnogwyr
25.28 Disgrifiad o Rôl Arweinydd Grŵp Gwleidyddol

ADRAN 25

## 2.51 - Disgrifiad o Swyddogaeth Aelod Etholedig

### 1 Yn Atebol i

- Ranbarth etholiadol y mae'r cynghorydd yn ei chynrychioli
- Etholaeth Bwrdeistref Sirol Conwy

### 2 Pwrpas y Swyddogaeth a'r Gwaith

**Cynrychioli, cefnogi a galluogi cymunedau**

- Cynrychioli buddiannau'r rhanbarth etholiadol
- Eirioli ar ran y Cyngor yn y rhanbarthau etholiadol a'r cymunedau y maent yn eu gwasanaethu
- Bod yn gyfrwng cyfathrebu i'r gymuned o safbwynt strategaethau, polisïau, gwasanaethau a gweithdrefnau'r Cyngor
- Cynrychioli etholwyr unigol a chyrff lleol, gan wneud gwaith achos ar eu rhan a gwasanaethu pawb yn deg a chyfartal
- Cysylltu ag aelodau'r pwyllgor gwaith, aelodau eraill y cyngor, swyddogion y cyngor a sefydliadau sy'n bartneriaid gan sicrhau bod anghenion y cymunedau lleol yn cael eu nodi, eu deall a'u cefnogi
- Hybu goddefgarwch a chydlyniant mewn cymunedau lleol

**Rheolaeth Fewnol, safonau moesol a pherthnasau**

- Hyrwyddo a chefnogi llywodraethu da yn y Cyngor a'i waith.
- Rhoi arweiniad cymunedol a hyrwyddo dinasyddiaeth weithredol.
- Hyrwyddo a chefnogi llywodraeth agored a chlir
- Cefnogi a chadw at gysylltiadau llawn parch, priodol ac effeithiol gyda gweithwyr y Cyngor.
- Cadw at Gôd Ymddygiad Aelodau, Protocol Aelodau/Swyddogion ac at ymddygiad o'r safon uchaf mewn swyddogaeth gyhoeddus.

**Gwneud penderfyniadau a goruchwylio perfformiad y Cyngor**

- Cymryd rhan yng nghyfarfodydd y Cyngor, gwneud penderfyniadau gwybodus a chytbwys, a goruchwylio perfformiad
- Cymryd rhan yn y broses o wneud penderfyniadau gwybodus a chytbwys ar bwyllgorau a phaneli y gallent fod wedi'u penodi arnynt
- Cadw at egwyddorion democratiaeth wrth wneud penderfyniadau
- Hybu a sicrhau effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd wrth ddarparu gwasanaethau'r Cyngor a gwasanaethau cyhoeddus eraill

- Gweithredu mewn ffordd gyfrifol i gefnogi'r Cyngor.

**Cynrychioli'r Cyngor (yn amodol ar gael eich penodi a lle bo'n briodol, i hybu'r polisïau y cytunwyd arnynt gan y Cyngor)**

- Cynrychioli'r Cyngor ar gyrff allanol lleol fel unigolyn a benodwyd gan y Cyngor
- Cynrychioli'r Cyngor ar bartneriaethau lleol, gan hybu buddiannau cyffredin a chydweithio er budd pawb
- Cynrychioli ac eirioli ar ran y Cyngor ar gyrff cenedlaethol ac mewn digwyddiadau cenedlaethol

**Datblygiad personol a swyddogaeth**

- Cymryd rhan mewn cyfleoedd a ddarparwyd gan yr Awdurdod ar gyfer datblygiad

**Gwerthoedd**

- Bod yn ymrwymedig i werthoedd y Cyngor a'r gwerthoedd a ganlyn o safbwynt swydd gyhoeddus:

  - Bod yn agored a thryloyw
  - Gonestrwydd a chywirdeb
  - Bod yn oddefgar a dangos parch
  - Cydraddoldeb a thegwch
  - Gwerthfawrogi gwahaniaeth diwylliannol
  - Cynaladwyedd

## 25.2 - Manylion am yr Unigolyn Aelod Etholedig

**I gyflawni ei rôl fel a nodir yn y disgrifiad o'r rôl, mae angen y canlynol ar Aelod effeithiol:**

### Cynrychioli a chefnogi cymunedau

- Sgiliau eiriolaeth da
- Sgiliau rhyngbersonol
- Integriti a'r gallu i roi eu barn eu hunain i un ochr a gweithredu'n ddiduedd
- Gallu i gyflwyno dadleuon perthnasol a rhesymegol
- Sgiliau cyfathrebu da

### Gwneud penderfyniadau a goruchwylio perfformiad y cyngor

- Gwybodaeth a dealltwriaeth o gyfraith, rheolau a chonfensiynau cyfarfodydd
- Dealltwriaeth o gyd-destun strategol, polisi a gwasanaeth ar gyfer penderfyniadau
- Gallu i herio syniadau a chyfrannu'n gadarnhaol at ddatblygiad polisi

### Cynrychioli'r Cyngor (yn amodol ar benodiad)

- Sgiliau siarad cyhoeddus da
- Sgiliau cyflwyno da
- Gallu i berswadio eraill a gweithredu gydag integriti

### Llywodraethu mewnol, safonau moesol a pherthnasoedd

- Dealltwriaeth o rolau swyddogion, aelodau a gwahanol asiantaethau
- Parch at wahanol grwpiau ac unigolion, a dymuniad i weithio gyda nhw
- Gwybodaeth a dealltwriaeth o'r Cod Ymddygiad a Phrotocol Aelod/Swyddog
- Gwybodaeth ac ymrwymiad i werthoedd y Cyngor

### Datblygiad personol a rôl

- Gallu i asesu anghenion datblygiad personol a rôl
- Dymuniad a sgiliau i gymryd rhan mewn datblygiad

## 25.3 - Disgrifiad O Swyddogaeth Arweinydd (A Dirprwy)

### 1 Yn Atebol

- I Etholaeth Cyngor Bwrdeistref Conwy
- I'r Cyngor Llawn

### 2 Pwrpas y Swyddogaeth a'r Gwaith

**Darparu arweinyddiaeth wleidyddol i'r Cyngor**

- Bod yn arweinydd gwleidyddol mewn enw i'r Cyngor; bod yn brif lefarydd gwleidyddol i'r Cyngor.
- Darparu arweinyddiaeth o safbwynt creu consensws gwleidyddol o ran polisïau'r Cyngor
- Paratoi gweledigaeth i'r Cyngor a'r gymuned
- Darparu arweinyddiaeth gref a chlir wrth gydlynu polisïau, strategaethau a darparu gwasanaethau

**Penodi'r Cabinet**

- Dynodi'r portffolios priodol
- Penodi aelodau etholedig priodol i bob portffolio
- Pennu rolau i aelodau sy'n gydnaws â'u galluoedd.
- Enwi Dirprwy Arweinydd, os yw'r Arweinydd yn teimlo bod angen gwneud hynny.

**Cynrychioli'r Awdurdod a gweithredu fel llysgennad i'r Awdurdod**

- Cynrychioli'r Awdurdod i safon uchel. Bod yn gynrychiolydd cryf, cymwys a huawdl i'r Awdurdod o fewn y Sir ac ar gyrff allanol.
- Cynrychioli'r Awdurdod mewn pwyllgorau cyswllt gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (WLGA) ac ar fwrdd partneriaeth ranbarthol y WLGA.
- Arwain a chefnogi partneriaethau a chyrff lleol.
- Cynrychioli'r Awdurdod ar gyrff rhanbarthol a chenedlaethol fel bo'n briodol.

**Arwain o fewn y portffolio**

- Cyflawni swyddogaeth deilydd portffolio, gan ystyried pwrpas y swyddogaeth a'r gwaith, a manylion swyddogaeth aelod gweithredol

**Rheoli ac arwain gwaith y Cabinet a chadeirio cyfarfodydd**

- Sicrhau bod y Cabinet yn cael ei gynnal yn effeithiol drwy reoli'r rhaglen gwaith i'r dyfodol a sicrhau datblygiad parhaus.
- Sicrhau bod gwaith y Cabinet yn cyflawni amcanion polisi cenedlaethol.
- Cynghori a mentora aelodau eraill y Cabinet yn eu gwaith.
- Cadeirio cyfarfodydd y Cabinet yn unol â'r Cyfansoddiad.
- Yn absenoldeb yr Arweinydd, dylai'r Dirprwy Arweinydd (os penodwyd ef/hi gan yr Arweinydd) gyflawni'r swyddogaeth hon.

**Cymryd rhan yng ngwaith y Cabinet o wneud penderfyniadau ar y cyd**

- Gweithio'n agos gydag aelodau'r eraill y Cabinet er mwyn sicrhau bod polisïau'r Cyngor a fframwaith cyllideb y Cyngor yn cael eu llunio'n effeithiol, a darparu gwasanaethau o safon uchel i bobl leol.
- Derbyn cydgyfrifoldeb a chefnogi penderfyniadau a wnaed gan y Cabinet, wedi iddynt gael eu cymryd.

**Gweithio gyda swyddogion i arwain y sefydliad**

- Cysylltu'n rheolaidd gyda'r Prif Weithredwr, a swyddogion priodol eraill.
- Gweithio gyda gweithwyr y Cyngor o ran gweledigaeth a chyfeiriad strategol y Cyngor, swyddogaethau rheoli swyddogion a datblygu materion polisi.

**Arwain partneriaethau ac arweinyddiaeth gymunedol**

- Rhoi arweiniad i bartneriaethau strategol lleol a phartneriaid lleol i gyflawni amcanion a blaenoriaethau cyffredin
- Trafod a bod yn gyfryngwr mewn achosion o flaenoriaethau gwahanol ac achosion o anghytuno
- Gweithredu fel arweinydd y gymuned leol trwy ddangos gweledigaeth a chraffter

**Rheolaeth Fewnol , safonau moesol a pherthynas**

- Hybu a chefnogi llywodraethu da yn y Cyngor ac o safbwynt ei waith
- Rhoi arweiniad cymunedol a hybu dinasyddiaeth weithredol
- Hybu a chefnogi llywodraethu agored a thryloyw
- Cefnogi, a chadw at berthynas barchus, briodol ac effeithiol gyda gweithwyr y Cyngor
- Cadw at Gôd Ymddygiad Aelodau, Protocol Aelodau/Swyddogion ac at ymddygiad o'r safon uchaf mewn gwaith cyhoeddus

## 3 Gwerthoedd

- Bod yn ymrwymedig i werthoedd y Cyngor a'r gwerthoedd a ganlyn o safbwynt swydd gyhoeddus:

    - Bod yn agored a thryloyw
    - Gonestrwydd a chywirdeb
    - Bod yn oddefgar a dangos parch
    - Cydraddoldeb a thegwch
    - Gwerthfawrogi gwahaniaeth diwylliannol
    - Cynaladwyedd
    - Arweinyddiaeth gynhwysol
    - Creu consensws

**Dirprwy Arweinydd (os penodwyd ef/hi gan yr Arweinydd)**

- Cyflawni dyletswyddau'r Arweinydd yn ei (h)absenoldeb
- Cynorthwyo'r Arweinydd i wneud dyletswyddau penodol fel bo angen

## 25.4 - Manylion am yr Unigolyn, Arweinydd

**I gyflawni ei rôl fel a nodir yn y disgrifiad o'r rôl, mae angen y canlynol ar Arweinydd effeithiol:**

**Darparu arweinyddiaeth wleidyddol i'r Cyngor**

- Gwybodaeth am gryfderau'r gymuned, meysydd gwelliant a materion allweddol.
- Dealltwriaeth o'r berthynas rhwng gwleidyddiaeth genedlaethol a lleol.
- Ymwybyddiaeth strategol dda o faterion sy'n wynebu'r Cyngor.
- Dealltwriaeth o strategaeth, polisïau a gweithrediadau'r Cyngor

**Penodi'r Cabinet***

- Dealltwriaeth o'r rheolau ar gyfer penodi Aelodau Cabinet
- Gallu i gydnabod talent ymhlith Aelodau
- Gallu i drafod y penodiadau mwyaf manteisiol mewn ac ar draws grwpiau gwleidyddol
- Gwerthuso, arwain a mentora uwch Aelodau

**Cynrychioli a gweithredu fel llysgennad ar gyfer yr Awdurdod**

- Sgiliau cyfathrebu lefel uchel i gyfathrebu â'r cyfryngau, gymuned leol a chynulleidfa ehangach.
- Sgiliau siarad cyhoeddus da

**Darparu arweinyddiaeth o fewn y portffolio**

- Sgiliau sydd eu hangen i Aelod Cabinet gyflawni ei rôl.

**Rheoli ac arwain gwaith y Cabinet a chadeirio cyfarfodydd y Cabinet**

- Dealltwriaeth o reolau gweithdrefn y Cabinet
- Sgiliau i Gadeirio cyfarfodydd, gan gynnwys annog cyfranogiad gan bob Aelod
- Gwybodaeth a dealltwriaeth o amcanion polisi cenedlaethol
- Trosolwg o'r gwaith sy'n cael ei wneud gan aelodau cabinet

**Cymryd rhan mewn prosesau gwneud penderfyniadau cyfun y Cabinet**

- Gallu i herio penderfyniadau mewn modd adeiladol ac awgrymu dewisiadau amgen

**Gweithio gyda swyddogion i arwain y sefydliad**

- Dealltwriaeth o rolau a chyfrifoldebau’r Prif Weithredwr a swyddogion eraill

**Arwain partneriaethau ac arweinyddiaeth gymunedol**

- Sgiliau arweinyddiaeth y mae modd eu haddasu
- Sgiliau trafod a broceriaeth
- Sgiliau meddwl creadigol ac ochrol; gallu i ragweld a bod yn rhagfynegol

**Llywodraethu mewnol, safonau moesol a pherthnasoedd**

- Dealltwriaeth o rolau swyddogion, aelodau a gwahanol asiantaethau
- Parch at wahanol grwpiau ac unigolion, a dymuniad i weithio gyda nhw
- Gwybodaeth a dealltwriaeth o’r Cod Ymddygiad a Phrotocol Aelod/Swyddog
- Gwybodaeth ac ymrwymiad i werthoedd y Cyngor

## 25.5- Disgrifiad o Swyddogaeth Aelod o'r Cabinet

### 1 Yn Atebol i

- Etholaeth Cyngor Bwrdeistref Conwy
- Arweinydd
- Cabinet (trwy gydgyfrifoldeb)
- Pwyllgorau Craffu ac Arolygu
- Cyngor Llawn

### 2 Pwrpas y Swyddogaeth a'r Gwaith

**Arwain y Portffolio**

- Rhoi cyfeiriad gwleidyddol i swyddogion sy'n gweithio o fewn y portffolio a chyfrannu at fframwaith cynllunio'r Cyngor yn gyffredinol
- Ennyn parch swyddogion o fewn y portffolio; rhoi cefnogaeth i swyddogion o ran gweithredu rhaglennu portffolio
- Sicrhau arweinyddiaeth yn y portffolio
- Cysylltu â chadeiryddion pwyllgorau craffu ac arolygu priodol a derbyn adroddiadau craffu fel bo angen
- Bod yn gyfrifol am ddewisiadau a pherfformiad yn y portffolio
- Arolygu rheoli perfformiad, effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd y portffolio
- Gwneud penderfyniadau gweithredol o fewn y Portffolio

**Cyfrannu at lunio rhaglen strategol a rhaglen waith i'r Awdurdod a'r portffolio**

- Gweithio gyda swyddogion i lunio dogfennau polisi, yn strategol a statudol. Sicrhau y cyflawnir ewyllys gwleidyddol y mwyafrif a'i arwain dwy'r Cabinet.
- Rhoi cymorth wrth lunio a gweithredu rhaglen waith strategol i'r dyfodol, yn wleidyddol a statudol. Ymgynghori â chyfranogion fel bo angen. Gwneud yn siŵr bod rhaglen gwaith i'r dyfodol y portffolio'n gyfredol a chywir.
- Cydgyfrifoldeb am ddarparu'r Cynllun Corfforaethol fel yr awdurdodwyd ef gan y Cyngor.

**Cynrychioli'r portffolio**

- Bod yn gynrychiolydd cryf, cymwys a pherswadiol i'r portffolio. Arwain mewn cyfarfodydd gyda chyfranogion.

**Rhoi gwybod a chyflwyno gwybodaeth**

- Rhoi gwybod fel bo'n briodol i'r Arweinydd, y Cyngor Llawn, y Cabinet, cadeiryddion priodol pwyllgorau arolygu a chraffu, cyrff rheoleiddio a'r cyfryngau.
- Bod yn brif lefarydd gwleidyddol ar gyfer y portffolio.

- Ymddangos gerbron pwyllgorau craffu ynghylch materion sydd wedi'u cynnwys yn y portffolio.

**Cymryd rhan weithredol yng nghyfarfodydd y Cabinet ac wrth wneud penderfyniadau**

- Dangos diddordeb ym mhortffolios aelodau eraill, a'u cefnogi nhw
- Cydnabod a chyfrannu at faterion sy'n gyffredin ar draws portffolios neu sy'n faterion y mae cydgyfrifoldeb amdanynt

**Arwain partneriaethau a rhoi arweiniad i'r gymuned**

- Rhoi arweiniad i bartneriaethau strategol lleol a phartneriaid lleol i gyrraedd at amcanion a blaenoriaethau cyffredin
- Trafod a bod yn gyfryngwr mewn achosion o flaenoriaethau gwahanol ac achosion o anghytuno
- Gweithredu fel arweinydd y gymuned leol trwy ddangos gweledigaeth a chraffter

**Rheolaeth Fewnol , safonau moesol a pherthynas**

- Hybu a chefnogi rheolaeth dda yn y Cyngor ac o safbwynt ei waith
- Rhoi arweiniad cymunedol a hybu dinasyddiaeth weithredol
- Hybu a chefnogi llywodraethu agored a thryloyw
- Cefnogi, a chadw at berthynas barchus, briodol ac effeithiol gyda gweithwyr y Cyngor
- Cadw at Gôd Ymddygiad Aelodau, Protocol Aelodau/Swyddogion ac at ymddygiad o'r safon uchaf mewn gwaith cyhoeddus

## 3 Gwerthoedd

- Bod yn ymrwymedig i werthoedd y Cyngor a'r gwerthoedd a ganlyn o safbwynt swydd gyhoeddus:

  - Bod yn agored a thryloyw
  - Gonestrwydd a chywirdeb
  - Bod yn oddefgar a dangos parch
  - Cydraddoldeb a thegwch
  - Gwerthfawrogi gwahaniaeth diwylliannol
  - Cynaladwyedd
  - Arweinyddiaeth gynhwysol

## 25.6 - Manylion am yr Unigolyn, Aelod Cabinet

**I gyflawni ei rôl fel a nodir yn y disgrifiad o'r rôl, mae angen y canlynol ar Aelod Cabinet effeithiol:**

**Arweinyddiaeth portffolio**

- Dealltwriaeth o strategaeth, polisïau a gweithrediadau'r Cyngor
- Sgiliau arwain

**Cyfrannu at osod yr agenda strategol a'r rhaglen waith ar gyfer y portffolio**

- Gallu i gyflwyno i eraill
- Gallu i ddefnyddio ymwybyddiaeth strategol a barn
- Gwybodaeth am faterion perthnasol a phwy i'w cynnwys wrth wneud penderfyniadau
- Gallu i berswadio eraill
- Gwybodaeth am amcanion y Cyngor ac amcanion cenedlaethol

**Darparu cynrychiolaeth ar gyfer y Portffolio**

- Sgiliau siarad cyhoeddus
- Sgiliau cyflwyno da

**Adrodd fel sy'n briodol**

- Sgiliau cyfathrebu lefel uchel

**Cymryd rhan weithredol mewn cyfarfodydd cabinet a phenderfyniadau**

- Gallu i herio penderfyniadau mewn modd adeiladol ac awgrymu dewisiadau amgen
- Gwybodaeth, hyder a gallu i gyfrannu at drafodaethau a datrys materion trawstoriadol a chyfun

**Arwain partneriaethau ac arweinyddiaeth gymunedol**

- Sgiliau arweinyddiaeth y mae modd eu haddasu
- Sgiliau trafod a broceriaeth
- Sgiliau meddwl creadigol ac ochrol; gallu i ragweld a bod yn rhagfynegol

**Llywodraethu mewnol, safonau moesol a pherthnasoedd**

- Dealltwriaeth o rolau swyddogion, aelodau a gwahanol asiantaethau
- Parch at wahanol grwpiau ac unigolion, a dymuniad i weithio gyda nhw
- Gwybodaeth a dealltwriaeth o’r Cod Ymddygiad a Phrotocol Aelod/Swyddog
- Gwybodaeth ac ymrwymiad i werthoedd y Cyngor

## 25.7 - Disgrifiad o Swyddogaeth Cadeirydd y Cyngor

### 1 Yn Atebol i

- Etholaeth Cyngor Bwrdeistref Conwy
- Cyngor Llawn

### 2 Pwrpas y Swyddogaeth a'r Gwaith

**Gweithredu fel symbol o awdurdod democrataidd y Cyngor**

- Fel arweinydd seremonïol y Cyngor, bod yn anwleidyddol a chynnal gwerthoedd democrataidd y Cyngor
- Cynrychioli'r Cyngor mewn achlysuron dinesig a seremonïau

**Cadeirio cyfarfodydd y Cyngor**

- Cadeirio cyfarfodydd y Cyngor, fel bod gwaith y Cyngor yn cael ei wneud yn effeithlon
- Sicrhau bod y Cyngor yn cynnal ei gyfarfodydd yn unol â Rheolau Sefydlog y Cyngor

**Cynnal a hyrwyddo Cyfansoddiad y Cyngor**

- Sicrhau y cedwir at y Cyfansoddiad, ac os oes angen, rheoli ar faterion o safbwynt dehongli'r Cyfansoddiad

**Rheolaeth Fewnol , safonau moesol a pherthynas**

- Hybu a chefnogi llywodraethu da yn y Cyngor ac o safbwynt ei waith
- Rhoi arweiniad cymunedol a hybu dinasyddiaeth weithredol
- Hybu a chefnogi llywodraethu agored a thryloyw
- Cefnogi a chadw at gysylltiadau llawn parch, priodol ac effeithiol gyda gweithwyr y Cyngor. Cadw at Gôd Ymddygiad Aelodau, Protocol Aelodau/Swyddogion ac at ymddygiad o'r safon uchaf mewn gwaith cyhoeddus.
- Sicrhau y cedwir at Weithdrefn Gwyno'r Cyngor.

**Rhaglenni gwaith**

- Goruchwylio gwaith blynyddol y Cyngor er mwyn bodloni ei oblygiadau cyfreithiol (e.e. cymeradwyo Treth y Cyngor a gwneud penodiadau Penaethiaid y Gwasanaeth Tâl a Chyfarwyddwyr)

## 3. Gwerthoedd

Bod yn ymrwymedig i werthoedd y Cyngor a'r gwerthoedd a ganlyn o safbwynt swydd gyhoeddus:

- Bod yn agored a thryloyw
- Gonestrwydd a chywirdeb
- Bod yn oddefgar a dangos parch
- Cydraddoldeb a thegwch
- Gwerthfawrogi gwahaniaeth diwylliannol
- Cynaladwyedd

## Is-gadeirydd

- Cyflawni dyletswyddau'r Cadeirydd yn ei (h)absenoldeb.
- Cynorthwyo'r Cadeirydd i wneud dyletswyddau penodol fel bo angen
- Sicrhau y cedwir at Weithdrefn Gwyno'r Cyngor.

## 25.8 - Manylion am yr Unigolyn Cadeirydd y Cyngor

**I gyflawni ei rôl fel a nodir yn y disgrifiad o'r rôl, mae angen y canlynol ar Aelod effeithiol:**

### Gweithredu fel symbol o awdurdod democrataidd y Cyngor

- Sgiliau siarad cyhoeddus da
- Dealltwriaeth drylwyr o rôl Cadeirydd

### Cadeirio cyfarfodydd y Cyngor

- Sgiliau i gadeirio cyfarfodydd, i sicrhau bod busnes yn cael ei wneud mewn ffordd effeithiol a bod pawb sy'n mynychu'r cyfarfod yn cymryd rhan
- Dealltwriaeth o Reolau Sefydlog y Cyngor

### Cynnal a hyrwyddo Cyfansoddiad y Cyngor

- Dealltwriaeth o Gyfansoddiad y Cyngor
- Dealltwriaeth o bryd i ofyn am gyngor y Swyddog Monitro ar faterion sy'n ymwneud â'r Cyfansoddiad

### Llywodraethu mewnol, safonau moesol a pherthnasoedd

- Dealltwriaeth o rolau swyddogion, aelodau a gwahanol asiantaethau
- Parch at wahanol grwpiau ac unigolion, a dymuniad i weithio gyda nhw
- Gwybodaeth a dealltwriaeth o'r Cod Ymddygiad a Phrotocol Aelod/Swyddog
- Gwybodaeth ac ymrwymiad i werthoedd y Cyngor

### Rhaglennu gwaith

- Gallu a disgyblaeth i gynllunio a rheoli rhaglenni gwaith

## 25.9 – Protocol Swyddogaeth y Cadeirydd – Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

Y Cadeirydd yw ‘prif ddinesydd’ y Fwrdeistref Sirol.

Felly, mae ef neu hi’n cynrychioli’r Cyngor mewn pob digwyddiad dinesig neu seremoni, gan weithredu fel llysgennad y Cyngor mewn digwyddiadau fel hyn.

Fel pennaeth seremonïol y Cyngor, bydd ef neu hi’n anwleidyddol wrth weithredu swyddogaeth y Cadeirydd a bydd yn ceisio cynnal gwerthoedd democratig y Cyngor.

Mae’n briodol mai’r Cadeirydd fydd yn cael ei wahodd pan fydd angen i gynrychiolydd y Cyngor weithredu mewn digwyddiad cyhoeddus a chyfarch ymwelwyr pwysig yn genedlaethol a rhyngwladol i’r Fwrdeistref Sirol, gan gynnwys aelodau’r Teulu Brenhinol.

Fel y ‘prif ddinesydd’, mae’r cadeirydd yn cael blaenoriaeth dros bawb arall yn yr ardal mewn digwyddiad dinesig a seremonïau, ac eithrio’r frenhines neu ei chynrychiolydd. Felly dylid neilltuo lle ar gyfer y Cadeirydd yn dilyn yr Arglwydd Raglaw ac Uwch Siryf mewn llinell gyflwyno neu’n union i’r dde o’r sawl sy’n llywyddu cynulliad wedi eistedd neu gyfarfod tebyg.  Bydd Cadeirydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy bob amser yn cael blaenoriaeth dros feiri tref a chadeiryddion cynghorau cymuned.

Felly, dylai’r Cadeirydd gynrychioli’r Cyngor mewn swyddogaethau ‘seremonïol’ neu ‘gyfarfod a chyfarch’, ond Arweinydd y Cyngor ddylai fod yn gynrychiolydd y Cyngor mewn cyfarfodydd neu drafodaethau gyda phobl fel Aelodau Cynulliad neu Aelodau Seneddol.

Bydd y Cadeirydd yn gallu dewis unigolyn, fel arfer ei bartner /phartner neu ŵr neu wraig i fod yn gymar a bydd yn gallu mynd i ddigwyddiadau gyda’r Cadeirydd

Bydd y Cadeirydd yn gallu gwneud trefniadau ar gyfer gwasanaeth dinesig neu ginio elusennol blynyddol a digwyddiadau dinesig eraill yn ystod cyfnod ei swydd fel y bo’n briodol.

Yn absenoldeb y Cadeirydd, awdurdodir yr Is-gadeirydd i weithred yn ei le /lle.

## 25.10 Disgrifiad o Rôl Cadeirydd Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd

**1 Atebolrwydd**

- I'r cyngor cyflawn

**2 Rôl, diben a gweithgarwch**

- **Arwain a chyfeirio**

- Rheoli cyfarfodydd mewn modd hyderus ac effeithiol i hwyluso agwedd gynhwysol/gyfranogol a phenderfyniadau eglur.

- Arwain y pwyllgor wrth gyflawni ei rôl ynglŷn â:

  - Penodi pennaeth y gwasanaethau democrataidd.
  - Cadw golwg ar y staff, y swyddfeydd a'r adnoddau eraill sydd ar gael i bennaeth y gwasanaethau democrataidd i ofalu eu bod yn addas.
  - Llunio adroddiad i'r cyngor bob blwyddyn am y mater uchod.
  - Penodi aelodau a chadeiryddion is-bwyllgorau i gyflawni swyddogaethau mae'r pwyllgor wedi'u dirprwyo.
  - Ystyried adroddiadau mae pennaeth y gwasanaethau democrataidd wedi'u llunio.
  - Llunio strategaeth y cyngor ar gyfer cynorthwyo a datblygu cynghorwyr.
  - Gofalu bod digon o weithgareddau hyfforddi a datblygu ar gael i'r cynghorwyr yn ôl strategaeth y cyngor ar gyfer eu cynorthwyo a'u datblygu a Breinlen Cynorthwyo a Datblygu Cynghorwyr Cymru.
  - Gofalu bod digon o arian yn y gyllideb i ddatblygu cynghorwyr.
  - Gofalu bod gweithgareddau datblygu personol ac adolygiadau blynyddol o ddatblygiad personol ar gael i gynghorwyr.
  - Cydweithio â hyrwyddwr gweithgareddau cynorthwyo a datblygu'r cynghorwyr lle bo'n berthnasol i hybu rôl cynghorwyr a mynnu'r cymorth a'r cyrsiau datblygu priodol.
- Amlygu agwedd annibynnol, gonest ac amhleidiol wrth benderfynu ar faterion yn ôl gofynion y gyfraith, y cyfansoddiad a pholisïau perthnasol.

**Hyrwyddo rôl pwyllgor gwasanaethau democrataidd**

- Gweithredu'n llysgennad dros y pwyllgor, gan helpu pobl i ddeall ei rôl.
- Gweithredu yn ôl gofynion technegol, gweithdrefnol a chyfreithiol i oruchwylio swyddogaethau'r pwyllgor mewn modd teg a chywir.
- Gofalu bod y pwyllgor yn gweithio mewn modd gwrthrychol a thrylwyr, gan dderbyn a defnyddio cynghorion arbenigol am sut mae cynnal cyfarfodydd.

- **Llywodraethu mewnol, safonau moesegol a chysylltiadau**

    - Datblygu enw da a gonestrwydd y pwyllgor a'i benderfyniadau.
    - Deall amryw rolau cynghorwyr, swyddogion a phobl allanol sy'n gweithredu yn y maes mae'r pwyllgor yn gyfrifol amdano.
    - Hyrwyddo a hwyluso llywodraethu da yn y cyngor.

**3 Egwyddorion**

- Ymrwymo i egwyddorion y cyngor a'r egwyddorion canlynol ynglŷn â swyddi cyhoeddus:

    - Agwedd agored a thryloyw
    - Gonestrwydd ac uniondeb
    - Goddefgarwch a pharch
    - Cydraddoldeb a thegwch
    - Parchu gwahaniaethau diwylliannol
    - Cynaladwyedd

## 25.11 - Disgrifiad o Rôl Aelod o Bwyllgor Gwasanaethau Democrataidd

**1 Atebolrwydd**

- I'r cyngor cyflawn
- I gadeirydd pwyllgor y gwasanaethau democrataidd

**2 Rôl, diben a gweithgarwch**

**Deall natur pwyllgor gwasanaethau democrataidd:**

- Bod yn effro i rôl y pwyllgor a'i helpu i'w chyflawni ynglŷn â:

    - Penodi pennaeth y gwasanaethau democrataidd.
    - Cadw golwg ar y staff, y swyddfeydd a'r adnoddau eraill sydd ar gael I bennaeth y gwasanaethau democrataidd i ofalu eu bod yn addas.
    - Llunio adroddiad i'r cyngor bob blwyddyn am y mater uchod.
    - Penodi aelodau a chadeiryddion is-bwyllgorau i gyflawni swyddogaethau mae'r pwyllgor wedi'u dirprwyo.
    - Ystyried adroddiadau mae pennaeth y gwasanaethau democrataidd wedi'u llunio.
    - Llunio strategaeth y cyngor ar gyfer cynorthwyo a datblygu cynghorwyr.
    - Gofalu bod digon o weithgareddau hyfforddi a datblygu ar gael i'r cynghorwyr yn ôl strategaeth y cyngor ar gyfer eu cynorthwyo a'u datblygu a Breinlen Cynorthwyo a Datblygu Cynghorwyr Cymru.
    - Gofalu bod digon o arian yn y gyllideb i ddatblygu cynghorwyr.
    - Gofalu bod gweithgareddau datblygu personol ac adolygiadau blynyddol o ddatblygiad personol ar gael i gynghorwyr.

- Gwybod digon am faterion technegol, gweithdrefnol a chyfreithiol i gyfrannu mewn modd teg a chywir i waith y pwyllgor.
- Gweithredu mewn modd trylwyr a gwrthrychol wrth dderbyn a defnyddio cynghorion arbenigol am sut mae cynnal cyfarfodydd a'r amryw faterion sydd gerbron y pwyllgor.

**Cymryd rhan mewn cyfarfodydd a phenderfynu ar faterion**

- Cymryd rhan yn effeithiol yng nghyfarfodydd y pwyllgor.
- Dod i benderfyniadau doeth a chytbwys (yn ôl amodau gorchwyl y pwyllgor) sy'n cyd-fynd â gofynion y gyfraith, y cyfansoddiad a pholisïau perthnasol.

**Llywodraethu mewnol, safonau moesegol a chysylltiadau**

- Diogelu ansawdd penderfyniadau'r pwyllgor a gofalu eich bod yn cyflawni'ch rôl yn aelod ohono trwy gadw at gôd ymddwyn y cynghorwyr a gofynion cyfansoddiadol a chyfreithiol eraill.
- Hyrwyddo a hwyluso llywodraethu da yn y cyngor.
- Deall amryw rolau cynghorwyr, swyddogion a phobl allanol sy'n gweithredu yn y maes mae'r pwyllgor yn gyfrifol amdano.

## 3 Egwyddorion

- Ymrwymo i egwyddorion y cyngor a'r egwyddorion canlynol ynglŷn â swyddi cyhoeddus:

  - Agwedd agored a thryloyw
  - Gonestrwydd ac uniondeb
  - Goddefgarwch a pharch
  - Cydraddoldeb a thegwch
  - Parchu gwahaniaethau diwylliannol
  - Cynaladwyedd

## 25.12 - Disgrifiad o Swyddogaeth Cadeirydd Pwyllgor Rheoleiddio

**1 Yn Atebol i**

- Etholaeth Cyngor Bwrdeistref Conwy
- Cyngor Llawn
- Aelodau'r pwyllgor rheoleiddio, lle bo'n briodol.

**2 Pwrpas y Swyddogaeth a'r Gwaith**

**Rhoi arweinyddiaeth a chyfeiriad**

- Rheoli cyfarfodydd mewn ffordd hyderus ac effeithiol er mwyn hwyluso cynhwysiant, cyfraniad a gwneud penderfyniadau clir
- Sicrhau bod ymgeiswyr a phartïon eraill â diddordeb yn fodlon â thryloywder y broses reoleiddio
- Dangos gonestrwydd ac agwedd ddiduedd wrth wneud penderfyniadau sy'n unol â gofynion cyfreithiol, cyfansoddiadol a pholisïau'r Cyngor

**Hyrwyddo Swyddogaeth y pwyllgor rheoleiddio a gwneud penderfyniadau lled-farnwrol**

- Gweithredu fel llysgennad i'r pwyllgor rheoleiddio, gan hybu dealltwriaeth o'r Swyddogaeth
- Gweithredu o fewn gofynion technegol, cyfreithiol a gweithdrefnol er mwyn goruchwylio gwaith y pwyllgor yn deg a chywir
- Sicrhau bod y pwyllgor yn gwneud ei waith yn drylwyr a gwrthrychol, gan dderbyn cyngor proffesiynol, ac ymateb iddo wrth gynnal cyfarfodydd, ac mewn achosion/ceisiadau unigol cyn cyfarfodydd pwyllgor ffurfiol.

**Rheolaeth Fewnol , safonau moesol a pherthynas**

- Datblygu statws a chywirdeb y pwyllgor a'r penderfyniadau a wneir ganddo
- Deall rolau perthnasol aelodau, swyddogion a phartïon allanol sy'n gweithredu o fewn maes cyfrifoldeb y pwyllgor rheoleiddio
- Hybu a chefnogi llywodraethu da yn y Cyngor
- Ymrwymo i wneud hyfforddiant priodol
- Cadw at unrhyw brotocolau a gymeradwywyd gan y Pwyllgor Safonau

## 3. Gwerthoedd

Bod yn ymrwymedig i werthoedd y Cyngor a'r gwerthoedd a ganlyn o safbwynt swydd gyhoeddus

- Bod yn ymrwymedig i werthoedd y Cyngor a'r gwerthoedd a ganlyn o safbwynt swydd gyhoeddus:
- Bod yn agored a thryloyw
- Gonestrwydd a chywirdeb
- Bod yn oddefgar a dangos parch
- Cydraddoldeb a thegwch
- Gwerthfawrogi gwahaniaethau diwylliannol
- Cynaladwyedd

## 25.13 - Manylion am yr Unigolyn, Cadeirydd Pwyllgor Rheoleiddio

**I gyflawni ei rôl fel a nodir yn y disgrifiad o’r rôl, mae angen y canlynol ar Gadeirydd Pwyllgor Rheoleiddio effeithiol:**

### Darparu arweinyddiaeth a chyfeiriad

- Gallu i gynnal cyfarfodydd i sicrhau bod ymgeiswyr yn teimlo eu bod wedi’u trin yn deg ac yn llawn hyd yn oed os bydd eu cais yn cael ei wrthod
- Dealltwriaeth o rôl y Cyngor a gallu i sicrhau bod budd-ddeiliaid yn ymwybodol o’r rôl honno
- Sgiliau cyfathrebu
- Gwybodaeth am faterion lleol
- Gallu i reoli gwaith y pwyllgor
- Gallu i gefnogi a datblygu sgiliau angenrheidiol mewn cyd-aelodau’r pwyllgor

### Hyrwyddo rôl y pwyllgor rheoleiddio a gwneud penderfyniadau gweinyddol/lled-farnwrol

- Dealltwriaeth a gwerthfawrogiad o’r fframwaith rheoleiddio
- Gallu i ysbrydoli ac ennyn brwdfrydedd aelodau pwyllgor dros waith y pwyllgor
- Integriti a’r gallu i roi eu barn eu hunain i un ochr a gweithredu’n ddiduedd
- Gwybodaeth a dealltwriaeth o’r cod(au) ymddygiad a phrotocolau perthnasol a'r gallu i'w hyrwyddo

### Llywodraethu mewnol, safonau moesol a pherthnasoedd

- Gwybodaeth a dealltwriaeth o’r Cod(au) Ymddygiad a phrotocolau
- Gwybodaeth ac ymrwymiad i werthoedd y Cyngor

**25.14 - Disgrifiad o Swyddogaeth Aelod o Bwyllgor Rheoleiddio**

**1 Yn Atebol i'r**

- Etholaeth Cyngor Bwrdeistref Conwy
- Cyngor Llawn
- Cadeirydd y pwyllgor reoleiddio

**2 Pwrpas y Swyddogaeth a'r Gwaith**

**Deall natur y pwyllgor rheoleiddio a gwneud penderfyniadau lled-farnwrol**

- Bod yn ymwybodol o natur led-farnwrol pwyllgor rheoleiddio wrth wneud penderfyniadau
- Bod â gwybodaeth dechnegol, gyfreithiol a gweithdrefnol ddigonol er mwyn cyfrannu'n deg a chywir at waith y pwyllgor
- Bod yn drylwyr a gwrthrychol wrth dderbyn cyngor proffesiynol ac ymateb iddo wrth gynnal cyfarfodydd ac mewn achosion/ceisiadau unigol cyn y pwyllgor

**Cymryd rhan mewn cyfarfodydd a gwneud penderfyniadau**

- Cymryd rhan yn effeithiol yng nghyfarfodydd y pwyllgor rheoleiddio, gan sicrhau bod ystyriaethau lleol ac argymhellion polisi wedi'u cydbwyso er mwyn cyfrannu at wneud penderfyniadau effeithiol
- Gwneud penderfyniadau gwybodus a chytbwys, o fewn cylch gorchwyl y pwyllgor, sy'n unol â gofynion cyfreithiol, cyfansoddiadol a pholisïau'r Cyngor

**Rheolaeth Fewnol , safonau moesol a pherthynas**

- Sicrhau cywirdeb y penderfyniadau a wneir gan y pwyllgor a'i Swyddogaeth ef/hi ei hun trwy gadw at y Côd Ymddygiad a gofynion cyfreithiol a chyfansoddiadol eraill
- Hybu a chefnogi llywodraethu da yn y Cyngor
- Deall rolau perthnasol aelodau, swyddogion a phartïon allanol sy'n gweithredu o fewn maes cyfrifoldeb y pwyllgor rheoleiddio
- Ymrwymo i wneud hyfforddiant priodol
- Cadw at unrhyw brotocolau a gymeradwywyd gan y Pwyllgor Safonau

**3 Gwerthoedd**

Bod yn ymrwymedig i werthoedd y Cyngor a’r gwerthoedd a ganlyn o safbwynt swydd gyhoeddus:

- Bod yn agored a thryloyw
- Gonestrwydd a chywirdeb
- Bod yn oddefgar a dangos parch
- Cydraddoldeb a thegwch
- Gwerthfawrogi gwahaniaeth diwylliannol
- Cynaladwyedd

## 25.15 - Manylion am yr Unigolyn, Aelod Pwyllgor Rheoleiddio

**I gyflawni ei rôl fel a nodir yn y disgrifiad o'r rôl/swydd, mae angen y canlynol ar Aelod effeithiol o bwyllgor rheoleiddio:**

**Deall natur y pwyllgor rheoleiddio a gwneud penderfyniadau gweinyddol/lled-farnwrol**

- Integriti a'r gallu i roi eu barn eu hunain i un ochr a gweithredu'n ddiduedd
- Gwybodaeth am y gyfraith, polisi a gweithdrefnau ar gyfer y maes rheoleiddio/lled-farnwrol/gweinyddol hwnnw
- Cynnal gwybodaeth
- Gwrthrychedd a barn

**Cymryd rhan mewn cyfarfodydd a gwneud penderfyniadau**

- Gallu i wrando ac i ystyried a pharchu barn cyfranwyr eraill
- Sgiliau siarad cyhoeddus da
- Sgiliau eiriolaeth da

**Llywodraethu mewnol, safonau moesol a pherthnasoedd**

- Gwybodaeth a dealltwriaeth o'r Cod(au) Ymddygiad a phrotocolau
- Gwybodaeth ac ymrwymiad i werthoedd y Cyngor

## 25.16 - Disgrifiad o Rôl Cadeirydd y Pwyllgor Safonau

**1. Atebolrwydd**

- I'r Cyngor Llawn.

**2. Diben a Gweithgareddau'r Rôl**

(a) *Darparu Arweinyddiaeth a Chyfeiriad*

a) Gweithredu o fewn gofynion technegol, cyfreithiol a threfniadol i oruchwylio swyddogaethau'r pwyllgor yn deg ac yn gywir.

b) Sicrhau trylwyrdeb a gwrthrychedd yn y pwyllgor, derbyn ac ymateb i gyngor proffesiynol ar y Cod Ymddygiad.

c) Dangos annibyniaeth, hygrededd a thegwch wrth wneud penderfyniadau sy'n unol â'r gofynion cyfreithiol, cyfansoddiadol a pholisi.

d) Darparu rheolaeth hyderus ac effeithiol o gyfarfodydd i hwyluso agwedd gynhwysol a chyfranogol a phenderfyniadau eglur.

e) Arwain y pwyllgor yn ei rôl yn:

- hyrwyddo a chynnal safonau ymddygiad uchel gan Gynghorwyr ac aelodau cyfetholedig;
- cynorthwyo'r Cynghorwyr a'r aelodau cyfetholedig i ddilyn Cod Ymddygiad Aelodau;
- cynghori'r Cyngor ar fabwysiadu neu ddiwygio Cod Ymddygiad Aelodau;
- monitro gweithrediad y Cod Ymddygiad Aelodau;
- cynghori, hyfforddi neu drefnu i hyfforddi Cynghorwyr, aelodau cyfetholedig ar faterion sy'n gysylltiedig â Chod Ymddygiad yr Aelodau;
- rhoi hawl i Gynghorwyr ac aelodau cyfetholedig ymdrin ag unrhyw adroddiadau o dribiwnlys achos neu dribiwnlys achos dros dro, ac unrhyw adroddiad oddi wrth y Swyddog Monitro ar unrhyw fater a gyfeiriwyd at y swyddog hwnnw gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru;

- arfer y swyddogaethau hyn mewn perthynas â chynghorau cymuned ac aelodau'r cynghorau cymuned hynny.

**3. <u>Gwerthoedd</u>**

- Bod yn ymrwymedig i werthoedd y Cyngor a'r gwerthoedd canlynol mewn swyddfa gyhoeddus:

  a) agwedd agored a thryloyw;

  b) gonestrwydd ac uniondeb;

  c) goddefgarwch a pharch;

  d) cydraddoldeb a thegwch;

  e) parch tuag at wahaniaethau diwylliannol;

  f) cynaliadwyedd.

## 25.17 - Disgrifiad Swyddogaeth Aelod o’r Pwyllgor Safonau

1. **Atebolrwydd**

- I'r Cyngor Llawn.
- Yn atebol i Gadeirydd y Pwyllgor Safonau ar gyfer materion a gaiff eu trin o dan faes y Pwyllgor

2. **Diben a Gweithgareddau'r Swyddogaeth**

- Deall natur y pwyllgor Safonau a chyflawni ei swyddogaethau yn effeithiol drwy:

  (i) hyrwyddo a chynnal safonau ymddygiad uchel gan Gynghorwyr ac aelodau cyfetholedig;

  (ii) cynorthwyo'r Cynghorwyr a'r aelodau cyfetholedig i ddilyn Cod Ymddygiad Aelodau;

  (iii) cynghori'r Cyngor ar fabwysiadu neu ddiwygio Cod Ymddygiad Aelodau;

  (iv) monitro gweithrediad y Cod Ymddygiad Aelodau;

  (v) cynghori, hyfforddi neu drefnu i hyfforddi Cynghorwyr, aelodau cyfetholedig ar faterion sy'n gysylltiedig â Chod Ymddygiad yr Aelodau;

  (vi) rhoi hawl i Gynghorwyr ac aelodau cyfetholedig i ymdrin ag unrhyw adroddiadau o dribiwnlys achos neu dribiwnlys achos dros dro, ac unrhyw adroddiad oddi wrth y Swyddog Monitro ar unrhyw fater a gyfeiriwyd at y swyddog hwnnw gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.

- Bod â digon o wybodaeth dechnegol, gyfreithiol a gweithdrefnol i gyfrannu'n deg ac yn gywir i swyddogaeth y pwyllgor.
- Bod yn drylwyr a gwrthrychol wrth dderbyn ac ymateb i gyngor proffesiynol wrth gynnal cyfarfodydd a materion sydd gerbron y pwyllgor.

  - *Cymryd rhan mewn Cyfarfodydd a Gwneud Penderfyniadau*

    (i) Cymryd rhan yn effeithiol mewn cyfarfodydd o'r pwyllgor Safonau.

    (ii) Gwneud penderfyniadau gwybodus a chytbwys, o fewn cylch gorchwyl y pwyllgor, sy'n cyd-fynd â gofynion cyfreithiol, cyfansoddiadol a pholisi.

- *Llywodraethu Mewnol, Safonau Moesol a Chysylltiadau*

  (i) Sicrhau cywirdeb y penderfyniadau a wneir gan y pwyllgor a’i swyddogaeth ef/hi trwy gadw at y Cod(au) Ymddygiad a gofynion cyfansoddiadol a chyfreithiol eraill.

  (ii) Hyrwyddo a chefnogi llywodraethu da gan y Cyngor.

  (iii) Deall swyddogaethau perthnasol yr aelodau, swyddogion a phartïon allanol sy'n gweithredu o fewn maes cyfrifoldeb y pwyllgor Safonau.

**3. Gwerthoedd**

Bod yn ymrwymedig i werthoedd y cyngor a'r gwerthoedd canlynol mewn swyddfa gyhoeddus:

- agwedd agored a thryloyw;
- gonestrwydd ac uniondeb;
- goddefgarwch a pharch;
- cydraddoldeb a thegwch;
- parch tuag at wahaniaethau diwylliannol;
- cynaliadwyedd.

**25.18 - Disgrifiad o Rôl Cadeirydd Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio**

**1 Atebolrwydd**

- I'r cyngor cyflawn

**2 Rôl, diben a gweithgarwch**

**Arwain a chyfeirio**

- Amlygu agwedd annibynnol, gonest ac amhleidiol wrth benderfynu ar faterion yn ôl gofynion y gyfraith, y cyfansoddiad a pholisïau perthnasol.
- Rheoli cyfarfodydd mewn modd hyderus ac effeithiol i hwyluso agwedd gynhwysol/gyfranogol a phenderfyniadau eglur.
- Cytuno ar agenda pob cyfarfod.
- Arwain y pwyllgor wrth gyflawni ei rôl ynglŷn â:
    - Adolygu ac archwilio materion ariannol y cyngor.
    - Ystyried adroddiadau a gwneud argymhellion am faterion ariannol y cyngor.
    - Adolygu ac asesu trefniadau rheoli risgiau, rheolaeth fewnol a llywodraethu corfforaethol y cyngor.
    - Llunio argymhellion i'r cyngor ynglŷn â pha mor addas ac effeithiol yw'r trefniadau hynny.
    - Goruchwylio trefniadau archwilio ariannol mewnol ac allanol y cyngor.
    - Adolygu'r adroddiadau ariannol mae'r cyngor wedi'u paratoi a rhoi sêl bendith arnyn nhw pan fo pwerau wedi'u dirprwyo.
    - Meithrin perthynas ag archwilwyr mewnol ac allanol a swyddog monitro'r cyngor.
    - Llunio rhaglen waith ar gyfer cyflawni swyddogaethau'r pwyllgor.
    - Adolygu ac asesu gwaith y pwyllgor a'i aelodau.
    - adolygu a hunanasesu perfformiad y Pwyllgor a’i aelodau; ac
    - adolygu a gwneud argymhellion am yr adroddiad hunanasesu yn unol ag adran 91 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.

**3. Hyrwyddo rôl Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu ariannol**

- Gweithredu'n llysgennad dros y pwyllgor, gan helpu pobl i ddeall ei rôl.
- Gweithredu yn ôl gofynion technegol, gweithdrefnol a chyfreithiol i oruchwylio swyddogaethau'r pwyllgor mewn modd teg a chywir.
- Gofalu bod y pwyllgor yn gweithio mewn modd gwrthrychol a thrylwyr, gan dderbyn a defnyddio cynghorion arbenigol am sut mae cynnal cyfarfodydd a phrosesau archwilio ariannol.

**4. Llywodraethu mewnol, safonau moesegol a chysylltiadau**

- Deall y peryglon ariannol sy'n berthnasol i faterion llywodraethu corfforaethol; bod yn fodlon bod datganiadau sicrhad y cyngor, megis y datganiad blynyddol ar lywodraethu, yn adlewyrchu'r peryglon hynny ac unrhyw waith mae'i angen i'w lleddfu.
- Datblygu enw da a gonestrwydd y pwyllgor a'i benderfyniadau.
- Manteisio ar gyfleodd hyfforddiant a datblygu sy'n berthnasol i'r pwyllgor
- Deall amryw rolau cynghorwyr, swyddogion a phobl allanol sy'n gweithredu yn y maes mae'r pwyllgor yn gyfrifol amdano.
- Hyrwyddo a hwyluso llywodraethu da yn y cyngor.

## 5. Egwyddorion

- Ymrwymo i egwyddorion y cyngor a'r egwyddorion canlynol ynglŷn â swyddi cyhoeddus:

    - Agwedd agored a thryloyw
    - Gonestrwydd ac uniondeb
    - Goddefgarwch a pharch
    - Cydraddoldeb a thegwch
    - Parchu gwahaniaethau diwylliannol
    - Cynaladwyedd

## <u>25.19 - Disgrifiad o Rôl Aelod o Bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio</u>

### 1 Atebolrwydd

- I'r cyngor cyflawn
- I gadeirydd pwyllgor yr archwilio ariannol

### 2 Rôl, diben a gweithgarwch

- **Deall rôl Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu ariannol a chyflawni ei rolau:**
  - Adolygu ac archwilio materion ariannol y cyngor.
  - Ystyried adroddiadau a gwneud argymhellion am faterion ariannol y cyngor.
  - Adolygu ac asesu trefniadau rheoli risgiau, rheolaeth fewnol a llywodraethu corfforaethol y cyngor.
  - Llunio argymhellion i'r cyngor ynglŷn â pha mor addas ac effeithiol yw'r trefniadau hynny.
  - Goruchwylio trefniadau archwilio ariannol mewnol ac allanol y cyngor.
  - Adolygu'r adroddiadau ariannol mae'r cyngor wedi'u paratoi a rhoi sêl bendith arnyn nhw pan fo pwerau wedi'u dirprwyo.
- Gwybod digon am faterion technegol, gweithdrefnol a chyfreithiol i gyfrannu mewn modd teg a chywir i waith y pwyllgor.
- Gweithredu mewn modd trylwyr a gwrthrychol, gan dderbyn a defnyddio cynghorion arbenigol am sut mae cynnal cyfarfodydd a'r amryw faterion sydd gerbron y pwyllgor.

### 3. Cymryd rhan mewn cyfarfodydd a phenderfynu ar faterion

- Cymryd rhan yn effeithiol yng nghyfarfodydd pwyllgor yr archwilio ariannol; holi am faterion sy'n rhan o orchwyl y pwyllgor a gofyn am eglurhad pan fo amwysedd.
- Dod i benderfyniadau doeth a chytbwys (yn ôl amodau gorchwyl y pwyllgor) sy'n cyd-fynd â gofynion y gyfraith, y cyfansoddiad a pholisïau perthnasol.

### 4. Llywodraethu mewnol, safonau moesegol a chysylltiadau

- Deall y peryglon ariannol sy'n berthnasol i faterion llywodraethu corfforaethol; bod yn fodlon bod datganiadau sicrhad y cyngor, megis y datganiad blynyddol ar lywodraethu, yn adlewyrchu'r peryglon hynny ac unrhyw waith mae'i angen i'w lleddfu.
- Diogelu ansawdd penderfyniadau'r pwyllgor a gofalu eich bod yn cyflawni'ch rôl yn aelod ohono trwy gadw at gôd ymddwyn y cynghorwyr a gofynion cyfansoddiadol a chyfreithiol eraill.
- Manteisio ar gyfleodd hyfforddiant a datblygu sy’n berthnasol i’r pwyllgor
- Hyrwyddo a hwyluso llywodraethu da yn y cyngor.

- Deall amryw rolau cynghorwyr, swyddogion a phobl allanol sy'n gweithredu yn y maes mae'r pwyllgor yn gyfrifol amdano.

## 5. Egwyddorion

- Ymrwymo i egwyddorion y cyngor a'r egwyddorion canlynol ynglŷn â swyddi cyhoeddus:

  - Agwedd agored a thryloyw
  - Gonestrwydd ac uniondeb
  - Goddefgarwch a pharch
  - Cydraddoldeb a thegwch
  - Parchu gwahaniaethau diwylliannol
  - Cynaladwyedd

## 25.20 - Disgrifiad o Swyddogaeth Cadeirydd Pwyllgor Craffu ac Arolygu

### 1. Yn Atebol i

- Etholaeth Cyngor Bwrdeistref Conwy
- Cyngor Llawn
- Cyrff Rheoleiddio Allanol

### 2. Pwrpas y Swyddogaeth a'r Gwaith

#### Rhoi arweiniad a chyfeiriad

- Rheoli'r tîm o aelodau mewn ffordd hyderus ac effeithiol
- Hybu Swyddogaeth Craffu ac Arolygu yn y Cyngor, a'r tu allan iddo, gan gydlynu'n effeithiol yn fewnol o fewn y Cyngor ac yn allanol gyda phartneriaid y Cyngor
- Datblygu rhaglen waith gytbwys ar gyfer y pwyllgor sy'n cynnwys craffu cyn gwneud penderfyniadau, datblygu ac adolygu polisïau, archwilio'r swyddogaeth graffu, a monitro perfformiad
- Sicrhau bod y rhaglen yn ystyried ffactorau perthnasol fel; rhaglenni gwaith y pwyllgor gwaith a phwyllgorau eraill, blaenoriaethau strategol a risgiau, a materion cymunedol perthnasol
- Gweithredu ymagwedd wrthrychol sy'n seiliedig ar dystiolaeth tuag at y swyddogaeth graffu
- Gwerthuso effaith a gwerth ychwanegol y gweithgaredd craffu a nodi meysydd i'w gwella
- Cysylltu â'r Aelod/au Cabinet perthnasol

#### Rheoli'r rhaglen waith

- Sicrhau bod y rhaglen waith yn cael ei gweithredu
- Rhoi gwybod i'r Cyngor ynghylch cynnydd ar sail y rhaglen waith, ac i eraill fel bo'n briodol
- Cysylltu â swyddogion, aelodau eraill a chynrychiolwyr o'r gymuned i gynnal a gweithredu'r rhaglen waith

#### Sicrhau bod y Pwyllgor Gwaith yn atebol

- Gwerthuso dilysrwydd penderfyniadau'r pwyllgor gwaith a herio penderfyniadau amhriodol drwy alw penderfyniadau i mewn

**Rheoli cyfarfodydd yn effeithiol**

- Paratoi rhaglenni sy’n cynnwys amcanion a chanlyniadau clir i'r cyfarfod
- Rheoli cynnydd a wneir mewn cyfarfodydd, gan sicrhau y cyflawnir amcanion, ac y cedwir at y rheolau sefydlog a’r gofynion cyfansoddiadol eraill
- Sicrhau bod y gwaith paratoi angenrheidiol yn cael ei wneud ymlaen llaw
- Sicrhau bod yr holl rai sy’n cymryd rhan yn cael cyfle i wneud cyfraniad priodol

**Arweinyddiaeth gymunedol**

- Gweithredu fel ffocws ar gyfer cysylltu rhwng y cyngor, y gymuned a chyrff allanol o ran y swyddogaeth graffu ac arolygu
- Creu dealltwriaeth a pherchnogaeth o'r swyddogaeth graffu ac arolygu o fewn y gymuned
- Nodi materion perthnasol sy’n seiliedig ar y gymuned i'w craffu
- Ymwneud yn llawn â chyfranogion allanol, er enghraifft defnyddwyr gwasanaeth, tystion arbennig a phartneriaid mewn gweithgaredd craffu ac arolygu

**Datblygiad aelodau’r pwyllgor**

- Rhestru cyfleoedd priodol ar gyfer hyfforddiant o safbwynt gwaith y Pwyllgor.

**25.21 Manylion am yr Unigolyn, Cadeirydd Pwyllgor Trosolwg a Chraffu**

**I gyflawni ei rôl fel a nodir yn y disgrifiad o'r rôl, mae angen y canlynol ar Gadeirydd Craffu effeithiol:**

**Darparu arweinyddiaeth a chyfeiriad**

- Gallu i weld y 'darlun mawr'
- Dealltwriaeth o rôl a swyddogaethau'r Cyngor
- Dealltwriaeth o strategaethau allweddol, blaenoriaethau a chyfeiriad teithio'r Cyngor
- Dealltwriaeth o bwrpas y swyddogaeth graffu a'i rôl yn nhrefniadau cynllunio gwelliant ac adrodd ehangach y Cyngor
- Gallu i hyrwyddo dull o drin craffu sydd (a) wedi'i arwain gan aelodau, (b) am ddarparu her i'r sawl sy'n gwneud penderfyniadau a darparwyr gwasanaeth ar sail tystiolaeth, ac (c) yn system bwysig ar gyfer ymgysylltu â'r gymuned a gwelliannau gwasanaeth
- Dealltwriaeth o'r gofynion cyfreithiol o ran craffu, gan gynnwys gwahardd chwipio gwleidyddol a chymryd barn y cyhoedd i ystyriaeth
- Dealltwriaeth o bwrpas a phrosesau sy'n gysylltiedig â'r Galwad gan Gynghorydd i Weithredu a'r weithdrefn Galw i Mewn
- Dealltwriaeth o'r gylch gorchwyl ar gyfer y pwyllgor a rôl y Cadeirydd
- Dealltwriaeth o swyddogaethau cymorth aelodau
- Dealltwriaeth o flaenoriaethau a risg gwasanaeth, gwelliant ac ariannol y cyngor
- Gallu i ddatblygu rhaglenni gwaith
- Dealltwriaeth o faterion cymunedol
- Gwrthrychedd a dealltwriaeth o gydraddoldeb ac amrywiaeth
- Trafod a meithrin consenswS
- Gallu i feithrin perthnasoedd adeiladol a 'chyfaill beirniadol' gyda'r swyddogion Gweithredol
- Ymrwymiad i ddatblygiad personol yn y rôl
- Ymrwymiad i ddatblygu aelodau eraill drwy fentora ac arwain
- Gweithio'n agos gyda swyddogion cefnogi craffu i sicrhau datblygiad parhaus craffu
- Sicrhau bod craffu yn gwneud gwahaniaeth

**Rheoli'r rhaglen waith**

- Gallu i reoli prosiectau ac adnoddau
- Gallu i reoli pobl
- Gallu blaenoriaethu gwaith
- Gallu i adrodd ar gynnydd i grwpiau gwahanol mewn gwahanol arddulliau – ar lafar ac yn ysgrifenedig
- Gallu i fonitro ac adolygu rhaglenni gwaith yn gyson

**Arwain Cydgraffu**

- Gallu i greu amgylchedd effeithiol, cefnogol a chroesawgar i aelodau craffu a

chynrychiolwyr partner o wahanol sefydliadau
- Gallu i weld y darlun mawr ar lefel ranbarthol
- Dealltwriaeth glir o rôl a swyddogaethau'r sefydliad partneriaeth/ rhanbarthol
- Dealltwriaeth o strategaethau allweddol, blaenoriaethau a chyfeiriad teithio'r sefydliad partner/rhanbarthol
  Ymrwymiad i alluogi dull o drin cyd-graffu a gaiff ei arwain gan aelodau, sy'n darparu her ar sail tystiolaeth ac sy'n system bwysig ar gyfer ymgysylltu â'r gymuned a gwella gwasanaeth
- Gallu i weithio'n adeiladol gyda sefydliadau partneriaeth/rhanbarthol dan amodau craffu
- Ymrwymiad i ddatblygu a chynnwys proses graffu anwleidyddol, gwrthrychol, cyfunol a chynhwysol
- Ymrwymiad i gynnig arweiniad a mentoriaeth i aelodau craffu
- Parodrwydd i sicrhau bod cyd-graffu yn gwneud gwahaniaeth
- Gallu i drafod ac adeiladu consenswS
- Gallu i reoli pobl, prosiectau ac adnoddau
- Ymrwymiad i godi proffil cyd-graffu a gallu i'w hyrwyddo yn yr awdurdod a thu hwnt

**Rheoli cyfarfodydd yn effeithiol**

- Dealltwriaeth a gweithredu protocolau cyfarfodydd, cod ymddygiad, rheolau sefydlog a gofynion cyfansoddiadol eraill gan gynnwys protocolau ar gyfer siarad cyhoeddus a gweddarlledu
- Gallu i gadeirio cyfarfodydd yn effeithiol, rheoli cyfraniadau aelodau a'r rhaglen a datblygu busnes i gyflawni'r canlyniadau dymunol
- Gallu i hwyluso trafodaethau effeithiol gan ganolbwyntio ar y strategaeth gwestiynu a gytunwyd
- Gallu i wrando a chwestiynu'n effeithiol
- Gallu i baratoi a chyflwyno siaradwyr a gwneud iddynt deimlo'n gartrefol wrth gyflwyno i'r pwyllgor
- Gallu i fod yn ddiduedd a sicrhau bod y pwyllgor yn gweithredu mewn modd anwleidyddol

**Ymgysylltu â'r Gymuned**

- Dealltwriaeth o rôl craffu wrth alluogi pobl leol a chymunedau i gyfrannu at y broses o wneud penderfyniadau a llunio polisi
- Gwybodaeth am faterion lleol a disgwyliadau
- Gallu i weithio'n effeithiol gyda phob aelod o'r gymuned a meithrin dealltwriaeth o rôl craffu gyda'r cyhoedd a budd-ddeiliaid, gallu i ymgysylltu ag unigolion a sefydliadau yn y gymuned, yn enwedig y rhai a gaiff eu heithrio'n draddodiadol
- Hyrwyddo dealltwriaeth mai craffu yw'r dewis olaf ar gyfer materion fel Galwad gan Gynghorydd i Weithredu
- Gallu i reoli disgwyliadau'r cyhoedd wrth ofyn i'r pwyllgor craffu ystyried materion

**Cyfranogiad a datblygiad Aelodau Pwyllgor**

- Dealltwriaeth o rôl a sgiliau'r pwyllgor craffu a'i unigolion

- Gallu i gefnogi aelodau a'r pwyllgor wrth asesu eu perfformiad
- Gallu i nodi unrhyw anghenion hyfforddiant a datblygu, a chefnogi a chyfranogi mewn dysgu a datblygu priodol
- Darparu mentora, canllawiau a chefnogaeth i aelodau yn eu rolau, fel Aelodau'n arwain grwpiau tasg a gorffen

# 25.22 - Disgrifiad o Swyddogaeth Aelod Craffu ac Arolygu

## 1 Yn Atebol i

- Etholaeth Cyngor Bwrdeistref Conwy
- Gadeirydd y pwyllgor craffu priodol; ac i'r
- Cyngor Llawn

## 2 Pwrpas y Swyddogaeth a'r Gwaith

- Cymryd rhan lawn yng ngweithgareddau'r Pwyllgor Craffu ac arolygu, gan weithredu ei raglen waith ac unrhyw grŵp tasg a gorffen cysylltiedig

### Adolygu a datblygu polisi

- Cynorthwyo i baratoi, datblygu, gwella a mireinio polisïau'r Cyngor
- Herio polisïau ar sail tystiolaeth gadarn er enghraifft yn erbyn deddfwriaeth neu flaenoriaeth wleidyddol leol
- Asesu effaith polisïau presennol

### Monitro perfformiad a darparu gwasanaeth

- Monitro perfformiad darparwyr gwasanaeth mewnol ac allanol ar sail safonau a thargedau
- Cyfrannu at nodi a lliniaru risg
- Ymchwilio i achosion o berfformiad gwael, a rhoi sylw iddynt

### Hyrwyddo gwaith craffu

- Hyrwyddo Swyddogaeth graffu o fewn a thu allan i'r cyngor, gan ddatblygu perthynas fewnol ac allanol effeithiol
- Dangos bod ymagwedd wrthrychol sy'n seiliedig ar dystiolaeth tuag at y swyddogaeth graffu
- Ychwanegu gwerth at wneud penderfyniadau a darparu gwasanaethau drwy graffu'n effeithiol
- Ymrwymo i wneud hyfforddiant priodol

### Rhoi arweiniad cymunedol

- Defnyddio'r swyddogaeth graffu fel modd i ddelio â materion cymunedol ac ymwneud â'r cyhoedd
- Annog cyfranogion i gymryd rhan yng ngwaith yr awdurdod
- Datblygu atebion polisi hyfyw a derbyniol
- Creu deialog ynghylch blaenoriaethau, amcanion a pherfformiad, ymysg cymunedau a chyfranogion

**Cyfraniad mewn cyfarfodydd**

- Paratoi'n ddigonol a phriodol at gyfarfodydd drwy ymchwilio a briffio
- Cyfrannu mewn ffordd ragweithiol, wybodus ac effeithiol gan ystyried y Côd Ymddygiad, y Rheolau Sefydlog a gofynion cyfansoddiadol eraill

**Sicrhau bod y Pwyllgor Gwaith yn atebol**

- Gwerthuso dilysrwydd penderfyniadau'r pwyllgor gwaith a herio penderfyniadau amhriodol drwy alw penderfyniadau i mewn

## 25.23 - Manylion am yr Unigolyn, Aelod Pwyllgor Trosolwg a Chraffu

**I gyflawni ei rôl fel a nodir yn y disgrifiad o'r rôl, mae angen y canlynol ar Aelod Craffu effeithiol:**

- Dealltwriaeth o rôl a swyddogaethau'r Cyngor
- Dealltwriaeth o strategaethau allweddol, blaenoriaethau a chyfeiriad teithio'r Cyngor
- Dealltwriaeth o bwrpas y swyddogaeth graffu ac ymrwymiad iddo
- Dealltwriaeth lawn o gylch gwaith a rôl craffu i ddarparu dull o drin craffu sydd (a) wedi'i arwain gan aelodau, (b) am ddarparu her i'r sawl sy'n gwneud penderfyniadau a darparwyr gwasanaeth ar sail tystiolaeth, ac (c) yn system bwysig ar gyfer ymgysylltu â'r gymuned a gwelliannau gwasanaeth
- Dealltwriaeth o'r cylch gorchwyl ar gyfer eu pwyllgor eu hunain a sut maen nhw'n cysylltu ag eraill
- Gallu gweithredu'n anwleidyddol, gwrthrychol, a gyda dealltwriaeth o gydraddoldeb ac amrywiaeth
- Dealltwriaeth o swyddogaethau cymorth aelodau
- Parodrwydd i weithio dan arweiniad y cadeirydd
- Parodrwydd i gyflawni datblygiad personol fel bo angen a deall y sgiliau sydd eu hangen i gyflawni'r rôl
- Dealltwriaeth o'r gofyniad cyfreithiol i roi ystyriaeth i farn y cyhoedd
- Gallu i drafod ac adeiladu consensws
- Dealltwriaeth o bwrpas a phrosesau sy'n gysylltiedig â'r Galwad gan Gynghorydd i Weithredu a'r weithdrefn Galw i Mewn
- Dealltwriaeth o flaenoriaethau a risg gwasanaeth, gwelliant ac ariannol y cyngor
- Dealltwriaeth o faterion cymunedol
- Cymryd rhan lawn mewn craffu gan gynnwys gofyn cwestiynau

### Craffu a datblygu polisi

- Gwybodaeth am bolisi presennol a gallu i'w werthuso
- Dealltwriaeth o arfer gorau
- Dealltwriaeth o gyd-destun deddfwriaethol a pholisi cenedlaethol a lleol

### Monitro perfformiad a darpariaeth gwasanaeth a dal y swyddogion gweithredol i gyfrif

- Deall rhaglen welliant y Cyngor a threfniadau asesu risg cysylltiedig
- Dealltwriaeth o egwyddorion ac arfer rheoli perfformiad.
- Dealltwriaeth o drefniadau rheoli perfformiad y Cyngor
- Gallu i ddadansoddi data a herio perfformiad
- Dealltwriaeth o'r trefniadau ar gyfer galw i mewn
- Gallu i weithredu fel cyfaill beirniadol mewn ffordd anwleidyddol
- Cynnal trosolwg yn hytrach na monitro manwl
- Gallu i ddal aelodau gweithredol/ swyddogion i gyfrif am gyflawni targedau / amcanion
- Monitro cynlluniau gweithredu sy'n codi o adolygiadau rheoleiddiwr mewnol neu

allanol

**Cymryd rhan mewn Cydgraffu**

- Ymrwymiad i gydweithio gydag aelodau craffu awdurdodau eraill a chynrychiolwyr sefydliadau partner
- Dealltwriaeth o rôl a swyddogaethau'r sefydliad partneriaeth/rhanbarthol
- Dealltwriaeth o strategaethau allweddol, blaenoriaethau a chyfeiriad teithio'r sefydliad partner/rhanbarthol
- Ymrwymiad i ddull o drin cyd-graffu a gaiff ei arwain gan aelodau, sy'n darparu her ar sail tystiolaeth ac sy'n system bwysig ar gyfer ymgysylltu â'r gymuned a gwella gwasanaeth
- Gallu i weithredu mewn ffordd anwleidyddol, gwrthrychol, cyfun a chynhwysol
- Parodrwydd i weithio dan arweiniad y cadeirydd
- Parodrwydd i gyflawni datblygiad personol fel bo angen a deall y sgiliau sydd eu hangen i gyflawni'r rôl
- Gallu i drafod ac adeiladu consensws
- Cymryd rhan lawn mewn craffu gan gynnwys gofyn cwestiynau

**Ymgysylltu â'r Gymuned**

- Dealltwriaeth o rôl craffu wrth alluogi pobl leol a chymunedau i gyfrannu at y broses o wneud penderfyniadau a llunio polisi
- Gwybodaeth am faterion lleol a disgwyliadau
- Gallu i weithio'n effeithiol gyda phob aelod o'r gymuned a meithrin dealltwriaeth o rôl craffu gyda'r cyhoedd a budd-ddeiliaid, gallu i ymgysylltu ag unigolion a sefydliadau yn y gymuned, yn enwedig y rhai a gaiff eu heithrio'n draddodiadol

**Cymryd rhan mewn cyfarfodydd**

- Gallu i ddehongli gwybodaeth a data o amrywiaeth o ffynonellau
- Dealltwriaeth a gweithredu protocolau cyfarfodydd, cod ymddygiad, rheolau sefydlog a gofynion cyfansoddiadol eraill
- Gallu i gymryd rhan mewn cyfarfodydd gan gynnwys gwrando, cwestiynu a siarad effeithiol
- Gwaith paratoi gan gynnwys ystyried llinellau cwestiynu
- Gallu i gyflwyno gwybodaeth i'r pwyllgor

## 25.24 - Manylion am yr Unigolyn, Arweinydd yr Wrthblaid

**I gyflawni ei rôl fel a nodir yn y disgrifiad o'r rôl, mae angen y canlynol ar Arweinydd yr wrthblaid effeithiol:**

### 1. Wrth ddarparu arweinyddiaeth wleidyddol i grŵp yr wrthblaid

- Gwybodaeth am gryfderau'r gymuned, meysydd gwelliant a materion allweddol
- Dealltwriaeth o'r berthynas rhwng gwleidyddiaeth genedlaethol a lleol
- Ymwybyddiaeth strategol dda o faterion sy'n wynebu'r Cyngor
- Dealltwriaeth o strategaeth, polisïau a gweithrediadau'r Cyngor
- Gallu i herio gwahanol strategaethau, polisïau a gweithrediadau

### 2. Wrth gynrychioli gwrthblaid yr Awdurdod

- Sgiliau cyfathrebu lefel uchel i gyfathrebu â'r cyfryngau, gymuned leol a chynulleidfa ehangach
- Sgiliau siarad cyhoeddus da
- Sgiliau meddwl creadigol ac ochrol; gallu i ragweld a bod yn rhagfynegol
- Sgiliau arwain

### 3. Llywodraethu mewnol, safonau moesol a pherthnasoedd

- Dealltwriaeth o rolau swyddogion, Aelodau a gwahanol asiantaethau
- Parch at wahanol grwpiau ac unigolion, a pharodrwydd i weithio gyda nhw
- Gwybodaeth a dealltwriaeth drylwyr o'r Cod Ymddygiad a Phrotocol Aelod/Swyddog
- Gwybodaeth ac ymrwymiad i werthoedd y Cyngor

## 25.25 - Disgrifiad o Rôl Aelodau sy'n Gefnogwyr

### 1. Atebolrwydd

- I'r Cyngor am swyddogaethau'r Cyngor
- I'r Weithrediaeth am swyddogaethau gweithredol

### 2. Diben a Gweithgareddau'r Rôl

**O fewn y Cyngor**

- Hyrwyddo'r buddiant y mae'n gyfrifol amdano yng nghyd-destun blaenoriaethau corfforaethol a blaenoriaethau gwasanaethau'r Cyngor
- Cyfleu anghenion y grŵp cleientiaid yn y buddiant y mae'n gyfrifol amdano i lunwyr penderfyniadau yn y Cyngor
- Cydweithio â llunwyr penderfyniadau yn y Cyngor i greu strategaethau/ polisïau/cynlluniau gwaith sy'n gysylltiedig â'r buddiant
- Cynnal ymwybyddiaeth o'r holl faterion sy'n gysylltiedig â'r buddiant
- Cyfrannu at arferion da a gwelliant parhaus yn y gwasanaethau a swyddogaethau sy'n gysylltiedig â'r buddiant
- Ymwneud ag Aelodau ar faterion sy'n gysylltiedig â'r buddiant, er enghraifft drwy fynd i gyfarfodydd Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu/ y Cabinet/ y Cyngor Llawn etc.
- Hybu ymwybyddiaeth a chynorthwyo wrth ddatblygu'r holl Aelodau a Swyddogion mewn perthynas â'r buddiant

**Yn y Gymuned**

- Codi proffil y buddiant yn y gymuned
- Ymwneud â dinasyddion a grwpiau cymunedol ar faterion sy'n gysylltiedig â'r buddiant
- Arwain a hybu mentrau lleol sy'n ymwneud â'r buddiant

### 3. Gwerthoedd

Ymrwymo i werthoedd y Cyngor a'r gwerthoedd canlynol mewn gwasanaeth cyhoeddus:

- Gweithredu'n agored a thryloyw
- Gonestrwydd ac uniondeb
- Parch a goddefgarwch
- Cydraddoldeb a thegwch
- Gwerthfawrogi gwahaniaethau diwylliannol
- Cynaliadwyedd
- Arweinyddiaeth gynhwysol

## 25.26 - Manylion am yr Unigolyn, Aelod Eiriolwr

### O fewn y Cyngor

- Dealltwriaeth o'r maes diddordeb sy'n cael ei gefnogi o ran strategaethau a pholisi'r Cyngor, arfer da, gwelliant a rhaglenni cenedlaethol ac anghenion y grŵp cleientiaid
- Gallu i ymgysylltu ag amrywiaeth o aelodau a swyddogion yn y maes diddordeb a gwrando ar ofynion
- Gallu i eirioli ar ran y maes diddordeb yn y Cyngor

### Yn y Gymuned

- Dealltwriaeth o anghenion y gymuned o ran y diddordeb
- Gallu i ymgysylltu â dinasyddion a grwpiau cymunedol mewn materion sy'n ymwneud â'r diddordeb
- Gallu i arwain a chefnogi mentrau lleol sy'n gysylltiedig â'r diddordeb
- Gallu i gynrychioli safle'r cyngor i'r gymuned o ran y diddordeb

## 25.27 - Protocol ar gyfer yr Aelodau sy'n Gefnogwyr

### 1. Beth yw Aelodau sy'n Gefnogwyr?

1.1 Pwrpas Aelodau sy'n Gefnogwyr yw siarad ar ran grwpiau sydd fel arfer wedi'u tangynrychioli, neu siarad ar faterion y mae angen rhoi lle blaenllaw iddynt ym musnes y Cyngor er nad ydynt o bosibl yn gyfrifoldeb i unigolyn neu bwyllgor penodol.

1.2 Mae Aelodau sy'n Gefnogwyr yn aelodau etholedig sydd, yn ogystal â chyflawni eu cyfrifoldebau eraill ar y Cyngor, yn sicrhau bod y mater neu'r grŵp y maent yn ei gefnogi'n cael ei ystyried wrth ddatblygu polisi'r Cyngor a gwneud penderfyniadau.

1.3 Mae'r Cyngor, yn y blynyddoedd diwethaf, wedi penodi Aelodau i fod yn Gefnogwyr mewn sawl maes o waith y Cyngor. Mae sawl un o'r swyddogaethau hyn bellach yn gyfystyr â swyddogaeth deilydd portffolio, ac wedi eu cynnwys o'u mewn, ond fe'i hystyrir yn briodol o hyd i rai themâu trawsbynciol fod ag Aelod penodol sydd wedi ei ddynodi yn Gefnogwr heb iddynt fod â chyswllt o reidrwydd â phortffolio perthynol.

### 2. Penodi Aelodau sy'n Gefnogwyr

2.1 Gall Aelod sy'n Gefnogwr fod yn unrhyw aelod o'r Cyngor.

2.2 Y Cabinet sy'n gyfrifol am benodi Aelodau sy'n Gefnogwyr oni bai fod penodiad o'r fath yn swyddogaeth i'r Cyngor neu wedi'i gadw ar gyfer y Cyngor gan y gyfraith. Os oes bwriad i benodi Aelod o Bwyllgor Trosolwg a Chraffu, bydd arweinwyr y grwpiau'n gofyn am fynegiant o ddiddordeb yn y rôl cyn bod y Cabinet yn ystyried neu'n cadarnhau unrhyw benodiad (yn ffurfiol neu'n anffurfiol).

2.3 Fel arfer disgwylir bod yr Aelod sy'n Gefnogwr yn gwasanaethu am ei gyfnod o/chyfnod hi yn y swydd er mwyn sicrhau sefydlogrwydd i'r rôl. Er hynny, gellir penodi yn ystod ei gyfnod o/ei chyfnod hi yn y swydd i unrhyw rôl sefydledig arall neu er mwyn llenwi rôl wag.

2.4 Bydd penodiadau'n cael eu hadolygu ddwywaith y flwyddyn i sicrhau fod Aelodau'n cyflawni eu rôl fel Cefnogwyr yn effeithiol. Bydd disgwyl i Aelodau sy'n Gefnogwyr ddarparu diweddariad blynyddol ar eu gwaith i'r Fforwm Gwybodaeth a Datblygu Aelodau. Os nad yw'r Cefnogwr yn gallu darparu diweddariad blynyddol boddhaol, bydd hyn yn cael ei gyflwyno gerbron y Cabinet, fel rhan o'r adolygiad chwe-misol, i ystyried p'un a ddylid penodi Aelod newydd yn eu lle.

### 3. Rôl yr Aelodau sy'n Gefnogwyr

3.1 Mae'n anodd llunio un disgrifiad rôl sy'n addas i'r gwahanol rolau y mae disgwyl i gefnogwyr eu cyflawni ond mae model cyffredinol wedi'i ddatblygu ac wedi'i ddangos yn Atodiad 1 y protocol hwn.

## 4. Sut mae eu swyddogaeth yn ffurfio rhan o'r strwythur corfforaethol?

4.1 Mae posib drysu oherwydd bod swyddogaeth Aelod sy'n Gefnogwr a'r Aelod Cabinet perthynol yn gorgyffwrdd (os nad yr un aelod ydynt). Mae'n bwysig fod Aelodau sy'n Gefnogwyr yn glir ynglŷn â'u swyddogaeth a'r hyn y gallant ac na allant ei wneud. Dylai gwaith yr Aelod sy'n Gefnogwr roi hwb i waith yr Aelod Cabinet perthnasol.

4.2 Rhaid i bob Aelod sy'n Gefnogwr weithredu'n rhesymol yn ei rôl a chydnabod y rheolaeth wleidyddol a threfniadau gweithio sydd wedi'u mabwysiadu gan y Cyngor a gweithio'n effeithiol o danynt. Dylent gymryd gofal i beidio â thresmasu mewn materion y tu hwnt i faes eu buddiant eu hunain.

4.3 Ni all Aelod sy'n Gefnogwr wneud penderfyniad (oni bai fod y Cefnogwr yn Aelod Cabinet ac awdurdod wedi'i ddirprwyo iddo) a rhaid iddo beidio â rhwymo'r Cyngor mewn unrhyw ddull neu fodd y gellid ystyried ei fod yn groes i bolisi ac ymarfer sefydledig. Fodd bynnag, caiff gadarnhau safbwynt sydd wedi'i ddatgan mewn polisi a gyhoeddwyd. Ni ddylai Aelodau sy'n Gefnogwyr siarad â'r wasg heb ymgynghori yn gyntaf gyda'r Aelod Cabinet a chyda'r swyddog proffesiynol perthnasol.

## 5. Cysylltiadau Gweithio Mewnol

5.1 Bydd y Cefnogwr:

- yn cydgysylltu'n rheolaidd ag Aelodau Cabinet (eraill) y mae eu portffolios yn berthnasol i'r rôl (yn achos rhai buddiannau cyffredinol, bydd hyn yn cynnwys pob un neu nifer ohonynt)
- yn monitro Cynllun Gwaith y Pwyllgorau i'r Dyfodol ac yn gofyn am wybodaeth gan y swyddogion ac Aelodau Cabinet perthnasol am fusnes y dyfodol ac yn dylanwadu ar ran y buddiant
- yn gwasanaethu (ochr yn ochr â'r Aelod Cabinet) lle y bo'n briodol ar Weithgorau/Grwpiau Tasg a Gorffen sy'n ymwneud â'r maes y mae'n gyfrifol amdano
- yn cymryd cyngor gan swyddog(ion) proffesiynol
- Mewn ymgynghoriad â'r Aelod Cabinet, ceisio gosod eitemau priodol ar raglenni'r Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu/Cabinet pan fo angen adolygu polisi/gwneud penderfyniad
- yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i Gynghorwyr eraill am weithgareddau yn ei faes drwy Fforwm Datblygu a Gwybodaeth yr Aelodau, Llyfryn Gwybodaeth yr Aelodau, neu'n uniongyrchol drwy'r e-bost, yn ôl yr hyn sy'n cael ei ystyried yn fwyaf priodol.
- yn hyrwyddo'r buddiant yn gyffredinol

5.2. Yn eu tro, bydd yr Arweinydd/Aelodau'r Cabinet, Cadeiryddion y Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu a swyddogion yn:

- cydnabod hawl Cefnogwyr i gael eu cynnwys wrth ymgynghori ar faterion sy’n ymwneud â’r buddiant y maent yn gyfrifol amdano
- rhoi pob ystyriaeth i unrhyw farn y mae Cefnogwyr yn ei mynegi cyn gwneud unrhyw argymhellion neu benderfyniad gweithredol ar faterion sy’n berthnasol i’r buddiant y maent yn gyfrifol amdano

## 6. Cysylltiadau Gweithio Allanol

6.1 Bydd y Cefnogwr yn:

- monitro ac yn cydweithio’n agos â chyrff sy’n bartneriaid yn y maes buddiant y maent yn gyfrifol amdano
- cyfathrebu â chyrff allanol ar ran y grŵp ‘buddiant’ a’r Cyngor
- cael bod yn gynrychiolydd i’r Cyngor ar rai cyrff allanol perthnasol
- nodi pa gyrff cymunedol sy’n fwyaf perthnasol o ran eu gwaith i’r buddiant y maent yn gyfrifol amdano ac yn meithrin cysylltiadau gweithio da â’r grwpiau hynny
- hyrwyddo’r materion penodol y mae’r Cefnogwr yn canolbwyntio arnynt o fewn y gymuned ehangach ac yn darparu cyfleoedd ar gyfer ymgysylltu lleol – gan gynnwys Aelodau Arweiniol y Cabinet a’r Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu fel y bo’n briodol.

## 25.28 <u>- Disgrifiad o Rôl Arweinydd Grŵp Gwleidyddol</u>

### 1. Atebolrwydd

- I'r Grŵp a'i enwebodd

### 2. Diben a Gweithgareddau'r Rôl

**Darparu arweiniad gwleidyddol i'r Grŵp**

- Bod yn arweinydd gwleidyddol amlwg ac yn esiampl dda i'r Grŵp.
- Bod yn brif lefarydd gwleidyddol y Grŵp.
- Os yw'r Grŵp mewn grym, darparu arweinyddiaeth Plaid Wleidyddol wrth ddatblygu gweledigaeth neu bolisïau'r Cyngor. Os yw'n wrthblaid, darparu her adeiladol a dewisiadau amgen i weledigaeth a pholisïau'r Grŵp Gwleidyddol sydd mewn grym.
- Cynnig amrywiaeth o safbwyntiau o fewn y Grŵp Gwleidyddol wrth lunio polisïau.
- Integreiddio a chynrychioli'r Grŵp Gwleidyddol ar lefel leol.
- Cydweithio â Grwpiau Gwleidyddol eraill pan fo hynny'n briodol, yn enwedig mewn materion nad ydynt yn ymwneud â Gwleidyddiaeth Blaid.
- Cadeirio a/neu fynychu cyfarfodydd pan fo wedi'i benodi i rôl gynrychiadol o fewn y Cyngor.
- Cysylltu â chynrychiolwyr lleol a rhanbarthol eraill y blaid.
- Bod yn llais cynrychioliadol y Grŵp er enghraifft a lle bo'n berthnasol, wrth ymwneud â sefydliadau allanol fel Llywodraeth Cymru neu'r Senedd

**Llywodraethu Mewnol, Safonau Moesol a Chysylltiadau:**

- Hyrwyddo a chefnogi llywodraethu da yn y Cyngor a'i waith
- Darparu arweiniad cymunedol a hyrwyddo dinasyddiaeth weithgar
- Hyrwyddo a chefnogi llywodraeth agored a thryloyw
- Hyrwyddo, cefnogi a chadw at berthnasoedd parchus, priodol ac effeithiol gyda gweithwyr ac aelodau eraill y Cyngor
- Hyrwyddo, cefnogi a chadw at God Ymddygiad yr Aelodau, Protocol Aelodau/Swyddogion a'r safonau ymddygiad uchaf mewn swyddi cyhoeddus
- Annog sylw dyledus i Saith Egwyddor Bywyd Cyhoeddus ac i gwrteisi mewn bywyd cyhoeddus
- Cymryd rhan mewn cyfleoedd datblygu perthnasol ac annog aelodau'r Grŵp i gymryd rhan
- Gosod disgwyliadau clir o ran ymddygiad aelodau'r grŵp a herio unrhyw ymddygiad amhriodol
- Hyrwyddo amrywiaeth ymysg aelodau'r Grŵp
- Annog aelodau'r Grŵp i hawlio cyflogau ac ad-daliadau sy'n ddyledus iddynt yn unol â phenderfyniadau'r IRPW

**Dyletswydd i hyrwyddo a chynnal safonau ymddygiad uchel ymysg Aelodau'r Grŵp yn unol â Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021**

- Cymryd camau rhesymol i hyrwyddo a chynnal safonau ymddygiad uchel ymysg aelodau'r Grŵp.
- Cydweithio â phwyllgor safonau'r cyngor (ac unrhyw is-bwyllgor o'r pwyllgor) wrth arfer swyddogaethau'r pwyllgor safonau.
  Yn benodol, cydweithio â'r Pwyllgor Safonau yn ei ddyletswydd i fonitro cydymffurfiaeth Arweinwyr Grwpiau â'u dyletswydd o dan y Ddeddf, ac wrth ddarparu gwybodaeth ar gyfer adroddiad blynyddol y Pwyllgor Safonau.
- Gweithio'n adeiladol â'r Swyddog Monitro ac Arweinwyr Grwpiau eraill mewn perthynas â'r ddyletswydd hon.
- Gweithio o fewn y protocol datrys lleol pan fo hynny'n berthnasol.
- **Cymryd rhan mewn unrhyw hyfforddiant sy'n ymwneud yn benodol â'r ddyletswydd hon.**

## 3. Gwerthoedd

Ymrwymo i, a dangos y gwerthoedd canlynol mewn swydd gyhoeddus:

- Agwedd agored a thryloyw
- Gonestrwydd ac uniondeb
- Goddefgarwch a pharch
- Cydraddoldeb a thegwch
- Parch tuag at wahaniaethau diwylliannol
- Cynaliadwyedd
- Arweinyddiaeth gynhwysol
- Meithrin consensws

**Canllawiau ategol i Arweinwyr Grŵp Gwleidyddol**

Mae Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 yn gosod dyletswydd ar Arweinwyr Grwpiau i gymryd "Camau Rhesymol" i hyrwyddo a chynnal safonau uchel o ymddygiad gan aelodau eu grŵp. Mae'r nodyn a ganlyn yn darparu dehongliad pellach o'r Ddeddf er mwyn ategu'r disgrifiad o rôl yr Arweinwyr Grwpiau.

- Mae gan Arweinwyr Grwpiau ddyletswydd i hybu a chynnal safonau uchel o ymddygiad gan aelodau eu grŵp mewn Awdurdod Unedol. Mae hyn yn berthnasol i'r aelodau grŵp hynny pryd bynnag y maent yn gweithredu neu'n rhoi'r argraff eu bod yn gweithredu yn rhinwedd eu swydd fel aelod.
- Mae'r ddyletswydd hon wedi'i chyflwyno gan Lywodraeth Cymru i annog safonau uchel o ymddygiad gan aelodau, gan gynnwys gwarineb a pharch ym mhob sefyllfa a thuag at bawb. Ni fwriedir i'r ddyletswydd fod yn feichus ac ni fydd yn cynnwys pawb (yn amlwg yr aelodau hynny nad ydynt yn perthyn i grŵp), ond yn hytrach i fod yn gymesur a chymwynasgar ac atal ymddygiad amhriodol cyn iddo fynd yn groes i'r Cod.
- Mae cyfrifoldeb eisoes ar bob cynghorydd i roi gwybod am achosion o dorri'r Cod Ymddygiad.
- Mae'r Ddyletswydd yn berthnasol i Arweinwyr Grwpiau ar gyfer aelodau eu grŵp pryd bynnag y bydd yr aelodau hyn er enghraifft yn gweithredu ar y Cyngor, mewn cyfarfodydd grŵp gwleidyddol, yn y gymuned ac ar gyrff allanol, megis Awdurdodau Tân ac Achub, Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol, Awdurdodau Heddlu, Cynghorau Tref a Chymuned, Cyd-bwyllgorau Corfforaethol a chyrff llywodraethu ysgolion.
- Yn achos cyrff allanol, y safonau ymddygiad sy'n gymwys yw'r rhai a nodir gan y corff y mae'r aelod o'r grŵp yn gwasanaethu ynddo. Os na fydd y rhain ar gael, Cod Ymddygiad y Cyngor fydd yn berthnasol.
- Nid yw'r Ddyletswydd yn gwneud Arweinwyr Grwpiau'n atebol am ymddygiad eu haelodau gan fod yn rhaid i Ymddygiad fod yn fater o gyfrifoldeb unigol. Fodd bynnag, rhaid i Arweinwyr Grwpiau gymryd "camau rhesymol" i hyrwyddo a chynnal safonau ymddygiad uchel ymysg aelodau'r grŵp. Ac mae'n rhaid iddynt gydymffurfio â'r pwyllgor safonau ac unrhyw is-grŵp y pwyllgor wrth arfer swyddogaethau'r pwyllgor safonau. A rhaid rhoi sylw i ganllawiau a gyhoeddwyd gan Weinidogion Cymru ar y materion hyn.
- Gallai "camau rhesymol" olygu bod Arweinwyr Grŵp yn:
    - Cael trafodaethau anffurfiol gydag aelodau a/neu ofyn am hyfforddiant ar gyfer aelodau a allai fod yn dangos arwyddion cynnar o ymddygiad amhriodol, er mwyn rhoi stop ar hyn cyn iddo ddod yn broblem neu mewn perygl o dorri'r Cod.
    - Gweithio'n adeiladol gyda phwyllgorau Safonau i adrodd ar gydymffurfiaeth â'u dyletswydd, unrhyw bryderon difrifol am ymddygiad aelodau nad ydynt wedi'u hunioni drwy gamau gweithredu anffurfiol, a gofynion hyfforddi er budd eu hunain ac ar gyfer aelodau eu grŵp.
    - Gweithio'n adeiladol gyda'r Swyddog Monitro, a'i gefnogi/chefnogi yn y materion hyn
    - Bod yn esiampl gadarnhaol i aelodau, gan ddangos y safonau uchaf

posibl o ymddygiad, cwrteisi a pharch.

    - Cynnal ymwybyddiaeth o'r hyn sy'n gyfystyr â safonau uchel iawn o ymddygiad, cwrteisi a pharch, yn enwedig o ran cydraddoldeb ac amrywiaeth.
    - Gweithio'n adeiladol gydag aelodau eraill o grwpiau'r cyngor ac ar gynghorau eraill i sicrhau'r safonau ymddygiad uchaf posibl yn y Cyngor a ledled Cymru.
    - Croesawu ac ymateb i bryderon a godir gan aelodau'r Grŵp am ymddygiad yn y grŵp.

- Mae'n ddyletswydd ar bwyllgorau safonau i fonitro cydymffurfiaeth Arweinwyr Grwpiau Gwleidyddol â'u dyletswyddau a chynghori, hyfforddi neu drefnu i hyfforddi arweinwyr grwpiau gwleidyddol ar y cyngor ynghylch materion sy'n ymwneud â'u dyletswyddau.
- Rhaid i bwyllgorau Safonau lunio adroddiad blynyddol i'r Cyngor am eu gwaith, gan gynnwys cydymffurfiad Arweinwyr Grŵp â'r ddyletswydd hon.
- Y sancsiynau y gellir eu cymhwyso i aelodau grŵp sy'n gweithredu'n amhriodol ar gorff allanol yw'r rhai a nodir gan y cyrff hynny. Os nad oes cosbau wedi'u gosod, rheolau'r Cyngor fydd yn berthnasol.
- Os yw aelod wedi torri'r Cod Ymddygiad ac yn cael ei atal, dim ond yn rhinwedd ei swydd fel aelod o un awdurdod perthnasol y caiff ei atal. Byddai'n rhaid iddo fod wedi'i anghymhwyso er mwyn iddo fod yn berthnasol yn rhinwedd ei rôl fel aelod o fwy nag un awdurdod perthnasol. (Rheoliadau Ymchwiliadau Llywodraeth Leol (Swyddogaethau Swyddogion Monitro a Phwyllgorau Safonau (Cymru) 2001).
- "Mae'n bosibl y gellir ystyried bod arweinydd grŵp sy'n methu â chydymffurfio â'r ddyletswydd newydd mewn ffordd ystyrlon yn dwyn anfri ar ei swydd, gan dorri paragraff 6(1)(a) o'r Cod" - Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, Y Cod Ymddygiad ar gyfer aelodau awdurdodau lleol yng Nghymru, Mai 2021.